Gallwch lawrlwytho'r lluniau yn rhad ac am ddim o www.freebibleimages.org ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae'r Cynllun Stori yma yn dangos be sy'n digwydd ym mhob rhan o'r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno'r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

	Disgrifiad	Llun	Nodiadau
	Daniel 6: 1-28		
1	Roedd Daniel yn caru Duw ac yn ufudd iddo. Roedd e'n Iddew ac yn byw yn Babilon. Roedd e'n gweithio i'r Brenin - Brenin Dareius. Roedd y Brenin yn hoffi Daniel am ei fod yn ddoeth ac yn gweithio'n dda.		
2	Roedd Daniel yn caru Duw. Roedd e'n gweddïo 3 gwaith bob dydd. Yn y bore roedd e'n gofyn i Dduw i'w helpu i weithio'n galed, i fod yn ddoeth ac i fod yn ufudd i Dduw.		
3	Yn y pnawn roedd Daniel yn gweddïo eto. Roedd e'n dweud wrth Dduw am bob dim oedd wedi digwydd yn y bore. Roedd Duw yn siarad hefo Daniel, ac roedd Daniel yn profi cariad Duw yn ei fywyd.		

4	Roedd Daniel yn gweddïo eto gyda'r nos. Roedd e'n diolch i Dduw am ei fwyd, ei waith, ei ffrindiau ac am ei helpu drwy'r dydd.	
5	Roedd Daniel yn hapus iawn, ond roedd yna ddynion yn y palas oedd yn genfigennus ohono. Am mai Daniel oedd ffefryn y Brenin roedden nhw eisiau cael gwared ohono.	
6	Y Brenin oedd yn gwneud y rheolau. Roedd rhaid i bawb ufuddhau i reolau'r brenin. Petai rhywun yn torri un o'r rheolau yna byddai rhywbeth drwg iawn yn digwydd iddyn nhw.	
7	Roedd y dynion drwg wedi meddwl am ffordd i wneud bywyd yn anodd i Daniel. Dyma nhw'n gofyn i'r brenin wneud rheol newydd. Doedd neb yn y wlad yn cael gweddïo ar Dduw. Roedd rhaid i bawb weddïo ar y Brenin yn unig.	
8	Roedd y brenin yn hoffi'r rheol newydd.	

9	Roedd Daniel yn drist iawn pan glywodd y rheol newydd. Roedd e'n hoffi'r brenin yn fawr iawn. Ond, roedd Daniel yn gwybod fod rhaid iddo roi Duw yn gyntaf.	
10	Daliodd ati i weddïo bob dydd. Roedd y dynion drwg wrth eu bodd. Rwan roedd ganddyn nhw esgus i ladd Daniel!	
11	Fe aethon nhw'n syth at y brenin. Roedd y brenin yn drist iawn, iawn. Roedd e'n hoffi Daniel yn fawr iawn. Ond doedd ganddo ddim dewis. Roedd Daniel wedi torri un o'i reolau ac roedd rhaid ei gosbi.	
12	Taflodd Daniel i ffau'r llewod. Ond, dwedodd y brenin wrth Daniel, "Bydd dy Dduw, yr un rwyt ti'n ei addoli mor ffyddlon, yn dy achub di.”	
13	Roedd gan Daniel ofn mawr. Roedd gan y llewodd ddannedd mawr, miniog. Ond digwyddodd rhywbeth rhyfeddol! Anfonodd Duw ei angel i gau cegau'r llewod.	

14	Roedd Duw wedi cadw Daniel yn saff.	
15	Y bore wedyn roedd y Brenin Dareius yn hapus iawn fod Daniel yn fyw ac yn iach. Dwedodd y brenin mai Duw Daniel oedd y Duw byw! Dwedodd ei fod yn achub ei bobl ac yn gwneud gwyrthiau rhyfeddol.	
16	Cyfieithwyd gan www.beibl.net	